Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
Ebost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Ms Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd CF99 1NA

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 14 Ionawr 2016 |
| Ein cyf: | HVT/2469/fgb |
| Tudalen: | 1 o 1 |

Annwyl Jocelyn

**YMATEB I'R YMGYNGHORIAD YNGHYLCH BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU) DRAFFT**

Diolch am eich gwahoddiad i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) Drafft.

Nodir fy ymatebion i'ch cwestiynau yn yr Atodiad sydd ynghlwm. Mae rhai o'm hymatebion yn ailadrodd barn rwyf eisoes wedi'i mynegi yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor i ystyried pwerau'r Ombwdsmon, ond rwy'n credu ei bod yn briodol imi eu cynnwys yn yr ymateb hwn er cyflawnrwydd.

Byddwn yn fodlon rhoi eglurhad pellach i'r Pwyllgor pe bai hynny o gymorth iddo.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

*Amg: Ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori yn yr Atodiad*

[redacted] [redacted]

## YMATEBION I'R CWESTIYNAU YMGYNGHORI YN YR ATODIAD

### Cyffredinol

**1.** *A fyddai'r Bil drafft yn gwella effeithiolrwydd rôl yr Ombwdsmon? Os felly, sut?*

Rwy'n credu bod y Bil yn ffafriol i wella effeithiolrwydd rôl yr Ombwdsmon. Dylai'r ddarpariaeth ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ganiatáu gwella effeithiolrwydd rôl yr Ombwdsmon drwy alluogi mynd i'r afael â phroblemau systematig ehangach yn gydlynol. Dylai dileu'r gofyniad i ymchwiliadau i faterion penodol fod yn gysylltiedig â chwynion penodol alluogi i'r Ombwdsmon gymryd dull mwy rhesymegol ac unedig o ran ymchwiliadau. Dylai hefyd alluogi ymchwilio i faterion sy'n amlwg yn achosi problemau er gwaethaf absenoldeb cwynion penodol, a gallai hyn fod o fudd i grwpiau penodol sy'n dueddol o fod yn amharod i godi cwynion neu'n methu gwneud hynny.

Dylai ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i'r sector gofal iechyd preifat mewn achosion lle mae pobl wedi cael gofal gan y GIG a sectorau preifat fod yn ddefnyddiol o ran galluogi ymchwiliadau i greu darlun mwy cynhwysfawr a chywir o sefyllfa o'r fath.

**2.** *Os oes rhwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil drafft, beth ydynt? A yw'r Bil drafft yn eu hystyried yn ddigonol?*

Nid wyf wedi nodi unrhyw rwystrau penodol o ran gweithredu darpariaethau'r Bil drafft.

**3.** *A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil drafft?*

Fel y deallaf, mae adran 4(4) wedi'i drafftio mewn modd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymchwiliadau ar ei liwt ei hun gysylltu â'r "camau gweithredu a gymerwyd". Gallai hyn arwain at y canlyniad anfwriadol o atal yr Ombwdsmon rhag cynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun mewn perthynas â hepgoriadau perthnasol, fel y rhai a nodir yn adran 10(1)(b) ac (c), hyd yn oed os oedd hepgoriadau o'r fath wedi digwydd ar ôl i'r Bil gael Cysyniad Brenhinol.

**4.** *Ar ba gam y dylid gwerthuso effaith y ddeddfwriaeth hon?*

Dylai fod yn ddefnyddiol cyflawni adolygiad sylfaenol cyn cychwyn y Ddeddf newydd. Ar ôl hynny, o ystyried yr amserlen ar gyfer cyflawni ymchwiliadau ar ei liwt ei hun a gwaith ar y polisi cwyno enghreifftiol, a chaniatáu iddynt gael effaith, dylai fod yn briodol gwerthuso o leiaf tair i bum mlynedd ar ôl cychwyn y Ddeddf, a hynny os mai bwriad y gwerthuso yw pwyso a mesur effeithiolrwydd. Fodd bynnag, os mai unig ddiben y gwerthuso yw asesu pa un a yw'r darpariaethau'n ateb y diben o ran galluogi'r prosesau i gychwyn (sy'n ffocws gweddol gul), byddai modd ei gyflawni flwyddyn neu ddwy ar ôl cychwyn y Ddeddf.

## Pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun

**5.** *A oes gennych unrhyw sylwadau ar y pŵer newydd yn adran 4?*

Dylai'r pŵer newydd wella effeithiolrwydd rôl yr Ombwdsmon fel y nodwyd yn fy ateb i gwestiwn 1.

**6.** *A yw cynnwys y pŵer hwn yn codi unrhyw ganlyniadau anfwriadol yng ngweddill y Bil drafft?*

Nid wyf yn gwybod am unrhyw ganlyniadau anfwriadol ar gyfer gweddill y Bil, ond ymddengys fod adran 4(4) wedi'i drafftio mewn modd sy'n cyfyngu ar ymchwiliadau ar ei liwt ei hun i ddeddfau (yn hytrach na hepgoriadau), a allai fod yn rhy gyfyngol (gweler fy ateb i gwestiwn 3 uchod).

**7.** *Â phwy y dylai'r Ombwdsmon ymgynghori o dan adran 4(2)?*

Byddai'n briodol i'r Ombwdsmon ystyried ymgynghori â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Plant Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas ag ymchwiliadau i faterion a allai fod yn destun ymchwiliad ganddynt hwy.

**8.** *A ddylai'r Ombwdsmon gael pŵer i gychwyn ymchwiliad yn seiliedig ar gamau gweithredu a ddigwyddodd cyn i'r Ddeddf/Bil drafft gael Cydsyniad Brenhinol (gweler adran 4(4))? Os felly, a ddylai fod yna dorbwynt, fel na fydd modd i'r Ombwdsmon, wedi iddo gyrraedd y torbwynt hwnnw, barhau i gynnal ymchwiliad ei liwt eich hun?*

Nid yw'n glir imi bod y pryder arferol sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth ag iddi effaith ôl-weithredol (h.y. mewn perthynas â rhyw weithred neu hepgoriad daw person, yn annheg, yn destun rhwymedigaethau cyfreithiol nad oedd yn gyfraith ar adeg y ddeddf neu'r hepgoriad) yn gymwys o ran adran 4(4), am nad yw'n newid rhwymedigaethau cyfreithiol. Yn wir efallai na fydd yn ddefnyddiol gosod torbwynt artiffisial ar y pŵer i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun.

**9.** *Pa fathau o faterion y dylid eu cynnwys yn y meini prawf ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun o dan adran 5?*

Rwy'n credu y gall materion a all gael eu cwmpasu'n briodol yn y meini prawf ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun gynnwys:

a) Y posibilrwydd y byddai camweinyddu neu fethu darparu gwasanaeth yn achosi cryn ofid neu galedi;

b) Gwasanaethau sydd yn ôl eu natur yn bwysig i ddefnyddwyr gwasanaethau na ydynt fel arfer yn dueddol o godi cwynion ac yn cael eu defnyddio gan y defnyddwyr gwasanaethau hynny yn bennaf;

c) Gwasanaethau a meysydd gweinyddu eraill sy'n ansoddol bwysig o ran materion fel tegwch, ond lle mae gofynion adnoddau ariannol isel yn golygu ei y byddai fel arfer yn amhriodol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio eu darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Nid wyf yn siŵr y byddai'n ddefnyddiol cael dull lle mae'n rhaid bodloni pob maen prawf er mwyn cyfiawnhau ymchwiliad.

**10.** *Pa fath o dystiolaeth ddylai fod ar gael i'r Ombwdsmon i gyfiawnhau ymchwiliad ar ei liwt ei hun (gweler adran 5(2))?*

Rwy'n credu y gallai achosi cryn broblemau pe bai'r maen prawf yn rhy gyfyngol o ran pennu pa fath o dystiolaeth fyddai ei hangen i gyfiawnhau ymchwiliad. Byddwn yn awgrymu y dylai unrhyw wybodaeth sy'n nodi'n rhesymol bod un neu ragor o'r meini prawf uchod yn cael eu bodloni (ac unrhyw rai eraill a nodir) yn ddigonol.

## Pwy sy'n cael cwyno

**11.** *A oes gennych unrhyw sylwadau am y diffiniad newydd o "aelod o'r cyhoedd" yn adran 7(2)?*

O ystyried bod y Bil yn ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat, mae'n ymddangos ei bod yn briodol ymestyn y diffiniad o “aelod o'r cyhoedd” i eithrio darparwyr gwasanaethau iechyd preifat sy'n gweithredu yn rhinwedd eu swydd yn hynny o beth.

## Y gofynion ar gyfer cwynion a wneir ac a atgyfeirir at yr Ombwdsmon

**12.** *A oes gennych unrhyw sylwadau am y gofynion newydd ar gyfer cwynion a wneir i'r Ombwdsmon yn adran 8*

Dylai ei gwneud yn ofynnol i gwynion fod ar ffurf a bennir gan yr Ombwdsmon a chynnwys gwybodaeth a bennir ganddo mewn canllawiau alluogi'r Ombwdsmon i sicrhau bod cwynion yn cael eu derbyn ar ffurf y gellir ymdrin â hwy'n effeithlon ac yn effeithiol. Mewn egwyddor efallai fod perygl y gallai'r canllawiau a bennir gan yr Ombwdsmon osod gofynion ar wneud cwynion sy'n rhy feichus, a allai atal y rhai sydd â chwynion dilys rhag eu gwneud. Fodd bynnag, tybiaf y byddai'r Ombwdsmon yn ymwybodol o'r angen i osgoi problem o'r fath ac mewn sefyllfa dda i'w hosgoi. Ar y sail honno, nid wyf yn credu bod darpariaethau adran 8 yn achosi problemau.

Mae Is-adran 5 o adran 8 yn atal yr Ombwdsmon rhag defnyddio'r pŵer yn adran 3 i ymchwilio i gŵyn ar lafar os nad yw'r person sy'n ei gwneud yn dymuno i'r gŵyn gael ei thrin fel un a wnaed yn briodol. Fodd bynnag, byddai'n bosibl o hyd i'r Ombwdsmon ddefnyddio'r pŵer yn adran 4 i gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun i'r mater (ar yr amod ei fod wedi codi ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol), a gellid o bosibl ddefnyddio hyn i negyddu effaith is-adran 5.

**13.** *Sut y dylai'r canllawiau arfaethedig ar gyfer gwneud cwyn i'r Ombwdsmon gael eu cyhoeddi a pha fformatau ddylai fod ar gael?*

O ystyried pwysigrwydd rôl yr Ombwdsmon a hawl pob aelod o'r cyhoedd i wneud cwyn, dylai'r canllawiau gael eu cyhoeddi mewn fformat y gall pob aelod o'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai â nam, gael mynediad iddynt yn hawdd. Mae’n ymddangos i mi y dylai'r canllawiau fod ar gael ar-lein ac ar ffurf copi caled ar gais. O ystyried y dyletswyddau presennol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a

rheoliadau cysylltiedig, nid wyf yn siŵr, fodd bynnag, ei bod yn angenrheidiol i hyn gael ei adlewyrchu yn nhestun adran 8.

## Materion y caniateir ymchwilio iddynt

**14.** *A oes gennych chi unrhyw sylwadau am y ddarpariaeth newydd sy'n galluogi'r Ombwdsmon i ymchwilio i'r gŵyn gyfan pan fydd y driniaeth yn gyfuniad o ddarparwyr gwasanaethau iechyd cyhoeddus a phreifat (gweler adrannau 10(1)(d) a 10(2))?*

Dylai ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon alluogi i ymchwiliadau greu darlun mwy cywir a chynhwysfawr o fater penodol lle mae claf wedi cael gofal iechyd preifat yn ogystal â gofal gan y GIG.

**15.** *A yw adran 10(2) yn ymdrin yn ddigonol ag unrhyw un sydd wedi derbyn cyfuniad o driniaeth gyhoeddus a phreifat?*

Mae'n ymddangos ei bod, ydy.

**16.** *A yw ehangu'r materion y caniateir ymchwilio iddynt yn adran 10(2) yn codi unrhyw ganlyniadau anfwriadol yng ngweddill y Bil drafft?*

Nid wyf yn gwybod am unrhyw ganlyniadau o'r fath.

**17.** *A yw'r diffiniad o "gwasanaethau iechyd preifat" yn adran 71 yn ddigon eang i gwmpasu unrhyw un sydd wedi cael cyfuniad o driniaeth gyhoeddus a phreifat?*

Mae'n ymddangos ei fod, ydy.

**18.** *A ddylai'r Ombwdsmon gael pwerau i adennill costau yr aethpwyd iddynt wrth ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat?*

Nid wyf yn siŵr y byddai'n briodol imi ateb yr hyn sy'n greiddiol i'r cwestiwn hwn, sy'n fater o bolisi, h.y. a ddylai endid yn y sector cyhoeddus gael pŵer i godi tâl ar endidau'r sector preifat er mwyn adennill costau.  Fodd bynnag, rwy'n credu bod angen ystyried y materion canlynol:

a) dylai unrhyw broses o adennill costau ei hun fod yn ddarbodus ac yn effeithlon—pe bai gweinyddu'r ffioedd yn cyfrif am gyfran uchel o'r ffioedd, byddai'n dwyn anfri ar y system;

b) byddai'n annymunol pe bai adennill costau'n anghymhelliad i ddarpariaeth iechyd sector preifat yng Nghymru;

c) mae'n werth cael ffioedd sy'n adlewyrchu unrhyw gostau ychwanegol yr aethpwyd iddynt oherwydd rhwystr diangen neu anghyfreithlon i hawliau mynediad statudol—dylai ffioedd o'r fath helpu i atal gwastraffu adnoddau cyhoeddus a bod yn ffafriol i ymchwilio effeithlon ac amserol;

d) dylai ymchwiliadau'r Ombwdsmon fod o fudd i ddarparwyr iechyd preifat (yn gyffredinol, os nad fel gweithredwyr unigol), yn ogystal ag unigolion a chymdeithas yn gyffredinol.

**19.** *A oes gennych unrhyw sylwadau am y diffiniad newydd o "ddarparwr gwasanaethau iechyd teulu" yn adran 71, a fwriadwyd i gwmpasu, er enghraifft, bractis cyfan o feddygon teulu yn hytrach na meddyg teulu unigol?*

Nid wyf yn siŵr bod y drafftio wedi cael yr effaith a fwriadwyd. Mae'n ymddangos bod y diffiniad o "berson" ac "unigolyn" yn rhoi'r pwyslais ar feddygon teulu unigol yn hytrach na'r practis meddyg teulu cyfan—yn enwedig ar gyfer practisau sy'n gweithredu o dan gytundeb partneriaeth lle nad oes gan y practis hunaniaeth gyfreithiol ar wahân i'r meddygon teulu partner.

## Gweithdrefn ymchwilio a thystiolaeth

**20.** *A oes gennych unrhyw sylwadau ar y weithdrefn a bennir yn adran 16 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer cynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun?*

Mae'n ymddangos i mi bod y gofynion i baratoi cynnig ymchwilio ac i rannu hyn â'r corff yr ymchwilir iddo yn rhesymol, a hefyd y gofyniad i alluogi'r rhai y mae'r cynnig yn effeithio arnynt i roi sylw. Dylai'r gofynion hyn sicrhau bod ymchwiliadau'n cael eu cynllunio'n effeithiol gyda'r lefel briodol o gyfranogiad gan y rhai yr effeithir arnynt. Fodd bynnag, nid yw'n glir i mi pam y mae adran 16(5)(b) dim ond yn rhoi cyfle i'r personau hynny a nodir mewn cynnig "mewn modd negyddol" wneud sylwadau. Gall hyn fod oherwydd bod y ddarpariaeth wedi'i bwriadu i adlewyrchu egwyddor o gyfiawnder naturiol ond ymddengys fod lle ar gyfer dadl gyfreithiol ynghylch a yw person yn cael ei nodi "mewn modd negyddol", ac efallai y bydd yn defnyddio adnoddau'r Ombwdsmon mewn modd annefnyddiol. Efallai y bydd personau a nodir mewn modd cadarnhaol neu niwtral mewn cynnig hefyd yn gallu darparu sylwadau defnyddiol yn ymwneud â'r ymchwiliad, felly gall fod yn ddymunol ymestyn y gofyniad i gwmpasu pob person a nodir yn y cynnig.

**21.** *A ddylai pŵer yr Ombwdsmon mewn perthynas â chael gwybodaeth, dogfennau, tystiolaeth a chyfleusterau hefyd fod yn gymwys i ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ac ymchwiliadau i wasanaethau iechyd preifat (gweler adran 17)?*

Byddai arfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn effeithiol yn cael ei gwtogi'n sylweddol pe na bai pwerau'r Ombwdsmon mewn perthynas â chael dogfennau a gwybodaeth gymwys yn berthnasol i ymchwiliadau o'r fath. Pe bai awdurdod yn dewis peidio â chydweithredu ag ymchwiliad, mae'n debygol na fyddai'n aml yn bosibl ei chynnal yn effeithiol. Mae'r un rhesymeg yn gymwys i ymchwiliadau i wasanaethau iechyd preifat.

## Awdurdodau Rhestredig

**22.** *A oes gennych unrhyw sylwadau ar y cyfyngiadau ar y pŵer i ddiwygio Atodlen 3 (gweler adran 30(2) yn benodol), sydd lawer yn gulach na'r cyfyngiadau yn Neddf 2005?*

Nid yw'n glir i mi pam nad yw gofynion ychwanegol Deddf 2005 wedi cael eu hatgynhyrchu yn y Bil, am eu bod yn gweithio i sicrhau mai dim ond awdurdodau cyhoeddus y gellir eu hychwanegu at Atodlen 3. Mae'n ymddangos ei bod yn annymunol dileu'r gofynion hyn am y byddai'n caniatáu ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon ymhellach i'r sector preifat heb yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol.

**23.** *A oes unrhyw gyrff eraill y dylid eu cynnwys ar y rhestr o 'Awdurdodau Rhestredig' yn Atodlen 3?*

Nid wyf yn gwybod am unrhyw hepgoriadau o'r rhestr yn Atodlen 3.

### Ymdrin â chwynion

**24.** *A oes gennych unrhyw sylwadau ar adrannau 33 i 39 (sy'n adlewyrchu adrannau 16A i 16G o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban 2002)?*

Ar y cyfan, mae'n ymddengys i mi bod y darpariaethau'n briodol i roi digon o bwerau i'r Ombwdsmon sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn gyson ac yn deg ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

**25.** *A yw adran 38(b) yn ddigonol i ganiatáu i awdurdodau rhestredig gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan ddeddfiadau eraill, fel y dyletswyddau Rhyddid Gwybodaeth?*

Mae'n ymddangos ei bod yn ddigonol, ydy.

### Rhan 4: Ymchwilio i gwynion sy'n ymwneud â phersonau eraill: gofal cymdeithasol a gofal lliniarol

**26.** *A ddylai Rhan 4 barhau i fod yn annibynnol? Neu a ddylai ymchwiliadau o'r fath gael eu dwyn o fewn y broses ymchwilio yn Rhan 3?*

O ran gwerth am arian gall fod yn fuddiol i bob ymchwiliad gael ei gynnal o dan brosesau a fframwaith cyfreithiol sydd mor gyson â phosibl, felly gallai fod yn werth dwyn Rhan 4 fel y mae ar hyn o bryd o fewn darpariaethau ymchwiliadau cyffredinol Rhan 3.

**27.** *Os dylai Rhan 4 gael ei dwyn o fewn Rhan 3, a oes unrhyw elfennau penodol o Ran 4 a ddylai barhau? Neu a ellir cymhwyso dull mwy cyffredinol?*

Mae'n ymddangos y byddai dull mwy cyffredinol yn effeithiol, er nad wyf wedi cynnal adolygiad llawn o union effeithiau cyfreithiol dwyn Rhan 4 o fewn Rhan 3.

### Rhan 5: Ymchwiliadau: cwestiynau atodol

**28.** *A oes gennych unrhyw sylwadau ar adrannau 62, 63 a 64, sy'n darparu ar gyfer cydweithio a chydlafurio â Chomisiynwyr penodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru?*

Rwy'n croesawu'r adrannau hyn, sy'n ei gwneud yn glir bod cydweithio yn cael ei ganiatáu mewn sefyllfaoedd priodol.

**29.** *A ddylai adrannau 62 a 63 gynnwys unrhyw gomisiynwyr y gallai'r Cynulliad eu sefydlu yn y dyfodol, gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru?*

Mae’n ymddangos i mi y byddai'n ddefnyddiol pe bai adrannau 62 a 63 yn cynnwys Comisiynwyr y gallai'r Cynulliad eu sefydlu yn y dyfodol; mae’n ymddangos yn debygol na fyddai'n ddefnyddiol i'r Ombwdsmon allu cydweithio â rhai Comisiynwyr ond nid ag eraill, ac y byddai hyn yn anghyson.

**30.** *A oes unrhyw newidiadau technegol pellach sydd eu hangen yn Rhan 5 o'r Bil drafft, er mwyn adlewyrchu'r materion ehangach y gellir ymchwilio iddynt?*

Nid wyf yn gwybod am unrhyw newidiadau o'r fath.

## Penodi etc

**31.** *Mae darpariaethau paragraffau 5 i 8 o Atodlen 1 (anghymhwyso) yn adlewyrchu'n bennaf y darpariaethau presennol yn Neddf 2005. A oes angen diweddaru'r darpariaethau hyn?*

Mae'r darpariaethau hyn yn ymddangos yn briodol. Mae'n ymddangos bod ychwanegu darparwr gwasanaeth iechyd preifat yn gyson.

**32.** *Mae Paragraff 1 o Atodlen 1 yn darparu bod person sydd wedi peidio â dal swydd Ombwdsmon neu swydd Ombwdsmon dros dro wedi'i anghymhwyso o restr o rolau (a restrir ym mharagraff 7(1)) am gyfnod o ddwy flynedd. A yw'r cyfnod o ddwy flynedd yn briodol?*

Ydy. Mae'n ymddangos yn briodol ac mae'n gyson â'r darpariaethau sy'n ymwneud â chyn-Archwilwyr Cyffredinol.

**33.** *A oes gennych sylwadau am y materion a gynhwysir yn y "swydd â thâl" ym mharagraff 8 o Atodlen 1?*

Nac oes.

## Goblygiadau ariannol

**34.** *A oes gennych farn am oblygiadau ariannol y darpariaethau newydd yn y Bil drafft?*

Os yw darpariaethau'r Bil drafft yn ei gwneud yn haws gwneud cwynion ar lafar mae'n eithaf tebygol y bydd mwy o gwynion yn cael eu gwneud, a fydd yn cynyddu costau. Nid yw'n glir, fodd bynnag, a fydd darpariaethau'r Bil drafft yn newid yr arfer presennol mewn perthynas â chwynion llafar i raddau amlwg.

Dylai darpariaethau'r Bil drafft yn ymwneud â hyrwyddo ymdrin â chwynion ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru fod yn gydnaws â gwell darbodusrwydd drwy, ymhlith pethau eraill, arbed cyrff rhag treulio amser a gwario arian ar ddyfeisio eu polisïau.

Gallai defnydd effeithiol o ymchwiliadau ar ei liwt ei hun arwain at lefelau is o gamweinyddu mewn gwasanaethau cyhoeddus, a allai arwain at arbedion effeithlonrwydd, ond mae'n anodd iawn meintioli manteision o'r fath, heb sôn am eu rhagweld.

## Sylwadau eraill

**35.** A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am y Bil drafft neu unrhyw ddarpariaeth benodol ynddo?

Mae darpariaethau archwilio paragraff 17 o Atodlen 1 yn adlewyrchu'r darpariaethau yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ac maent yn safon ar gyfer endidau o'r math hwn.  Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r darpariaethau archwilio'n dilyn rhai llywodraeth leol ac endidau'r GIG (gweler adran 17(2)(d) ac adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004) drwy hefyd roi dyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol i fodloni ei hun ynghylch a oes trefniadau priodol wedi'u gwneud ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.  Byddai hyn yn gam defnyddiol tuag at fwy o gysondeb mewn darpariaethau archwilio ar draws cyrff cyhoeddus yng Nghymru.  Byddai hefyd yn hwyluso gwell safon o archwilio blynyddol o ran sicrwydd mewn perthynas â gwerth am arian.